

Cymdeithas y Cyfreithwyr

15 Hydref 2024

Annwyl Cymdeithas y Cyfreithwyr

Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru

Ym mis Mai 2022, nododd Llywodraeth Cymru bum maes gweithredu a oedd yn mynd i'r afael â'r holl argymhellion a dderbyniwyd yn yr adroddiad Cryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Pwysleisiodd un o'r argymhellion hyn yr angen i gryfhau cysylltiadau a chydweithio rhwng y llywodraeth, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chymdeithas y Gyfraith wrth hyrwyddo'r agenda hawliau dynol.

Yng ngoleuni'r uchod, byddem yn croesawu diweddariad gennych chi ar yr argymhellion sy'n ymwneud â chydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Chymdeithas y Gyfraith, gan gynnwys unrhyw fanylion penodol am unrhyw gamau a gymerwyd.

Rydym hefyd wedi amgáu copi o'r ohebiaeth ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru sy'n rhoi rhagor o gyd-destun i'n gwaith yn y maes hwn.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol





Senedd Cymru
Welsh Parliament